# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PWLLHELI**

Dyddiad ac Amser

**6.00 y.h., DYDD MAWRTH, 12FED HYDREF, 2021**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol - Zoom**

(i gael mynediad cyhoeddus, cysylltwch â ni)

Pwynt Cyswllt

**Einir Rh Davies**

**01286 679868**

**einirrhiandavies@gwynedd.llyw.cymru**

(DOSBARTHWYD Dydd Llun, 4 Hydref 2021)

**AELODAETH:**

**Cyngor Gwynedd:**

| | |
|---|---|
| Dylan Bullard | Aelod Lleol |
| Peter Read | Abererch Local Member |
| Hefin Underwood | Aelod Lleol |

**Aelodau Cyfetholedig:**

| | |
|---|---|
| Jenny Moss | Cymdeithas Deiliaid Angorfeydd Marina Pwllheli |
| Ifor Hughes | Cymdeithas Perchnogion Cyhod Pwllheli a'r Cylch |
| Stephen Tudor | Cynrychioli Clwb Hwylio Pwllheli |
| Michael Sol Owen | Cynrychioli Plas Heli |
| Wil Partington | Cynrychioli Cymdeithas Masnachwyr Morwrol Pwllheli |
| Andrew Picken | Cynrychioli Siambr Fasnach Pwllheli |
| Cynghorydd Mici Plwm | Cynrychioli Cyngor Tref Pwllheli |
| Alwyn Roberts | Cynrychioli Sefydliad y Bad Achub Pwllheli |

**Sylwedyddion:**

| | |
|---|---|
| David Williams | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi |
| Cynghorydd Rob Triggs | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw |
| Dr John Jones-Morris | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog |
| Gareth Thomas | Cabinet Member of Economic Development |

# RHAGLEN

## 1. ETHOL CADEIRYDD

Ethol Cadeirydd ar gyfer 2021/22.

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

Ethol Is-gadeirydd ar gyfer 2021/22.

## 3. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 5. MATERION BRYS

Ystyried unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd

## 6. COFNODION 4 - 7

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 16 Mawrth, 2021 fel rhai cywir.

## 7. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL YR HARBWR 8 - 28

**I Dderbyn Adroddiad gan y Rheolwr Harbwr Pwllheli**

Atodiad 1 – Cymhariaeth Gwynedd i Eraill 2021
Atodiad 2 – Cymhariaeth Cychod Pŵer i Hwylio 2021
Atodiad 3 – Cymhariaeth Ystadegau Cwch ym Mhob Harbwr 2021
Atodiad 4 – Cymhariaeth Ystadegau Cychod Pwllheli 2021
Atodiad 5 – Ystadegau Pwyllgor Harbwr Pwllheli – Hydref 2021
Atodiad 6 – Cyfanswm Cofrestrau Cychod Pwer 2021
Atodiad 7 – Cyfanswm Cofrestrau Beiciau Dwr 2021

## 8. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Nodi y cynhelir cyfarfod nesaf Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli ar 15 Mawrth, 2022

# PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PWLLHELI 16/3/21

**PRESENOLDEB:**

**Cyngor Gwynedd:** Y Cynghorwyr: Dylan Bullard, Peter Read, Gareth Thomas a Hefin Underwood

**Aelodau Cyfetholedig:** Ifor Hughes (Cymdeithas Perchnogion Cychod Pwllheli a'r Cylch), Stephen Tudor (Cynrychioli Clwb Hwylio Pwllheli), Michael Sol Owen (Cynrychioli Plas Heli), Wil Partington (Cynrychioli Cymdeithas Masnachwyr Morwrol Pwllheli), Alwyn Roberts (Cynrychioli Sefydliad y Bad Achub Pwllheli) a Jenny Moss (Cymdeithas Deiliaid Angorfeydd Marina Pwllheli

**Eraill yn bresennol:** Barry Davies (Rheolwr Gwasanaeth Morwrol), William S Williams ((Rheolwr Hafan), Llŷr B Jones (Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned), Cynghorydd Rob Triggs (Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw), Bethan M Evans a Delyth M Jones (Cyfieithwyr), Einir Rh Davies a Lowri H Evans (Swyddogion Gwasanaethau Democratiaeth).

**1. ETHOL CADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD** ail-ethol y Cynghorydd Hefin Underwood yn gadeirydd y Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2021/22.

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD** ail-ethol y Cynghorydd Peter Read yn is-gadeirydd y Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2021/22.

**3. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Y Cynghorydd  Mici Plwm (Cynrychioli Cyngor Tref Pwllheli)

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**5. MATER BRYS**

Nid oedd unrhyw fater brys.

**6. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 15 Hydref, 2019 fel rhai cywir.  Yn y cyfarfod blaenorol, cynigiwyd cysylltu gyda'r Aelod Cynulliad Dafydd Elis Thomas, i dynnu sylw at reolau caeth Cyfoeth Naturiol Cymru ynghyd a rhwystrau mewn deddfau a pholisïau amgylcheddol ar gyfer adeiladu grwyn effeithiol.  Cadarnhawyd bod cyswllt wedi ei wneud gyda Chyfoeth Naturiol Cymru oedd yn cyfeirio yn ôl at y Ddeddf a'r orfodaeth i gydymffurfio a'r Ddeddf.

**7. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLI YR HARBWR**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Swyddog Morwrol a'r Rheolwr Harbwr am y cyfnod Hydref 2019 i Fawrth 2021, a nodwyd y prif bwyntiau canlynol:

- **Llithrfa Harbwr Allanol**
  Nodwyd bod angen datrys y mater defnydd o'r llithrfa a'r brydles rheoli tir, ar fyrder. Cadarnhawyd bod cyfeiriad yn y brydles at y trefniadau a bod trafodaethau ar y gweill gyda'r Aelod Lleol, y Cadeirydd a'r Gwasanaeth a chytunwyd i adrodd yn ôl i Ifor Hughes er mwyn ei gadw yn y darlun.
- **Rheolau Cyfansoddiad y Pwyllgor**
  Atgoffwyd y cynrychiolwyr bod gofyn iddynt gyflwyno cofnodion eu pwyllgorau i'r Pwyllgor hwn, ynghyd a chopi o'r cyfansoddiad. Mae derbyn y wybodaeth yn hanfodol er mwyn sicrhau parhad y Mudiad ar y Pwyllgor.
- **Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd**
  Mae dau archwiliad wedi ei gynnal gan Wylwyr y Glannau a bu iddynt gadarnhau bod popeth mewn trefn a bod y Cyngor yn cydymffurfio gyda gofynion y Cod Diogelwch. Cadarnhawyd hefyd bod gwaith archwilio rhithiol wedi ei wneud gan Harbwr Feistr Conwy a'i fod yntau fel y Person Dynodedig yn fodlon gyda safon y Cod yng Ngwynedd. Nodwyd y bydd hyn yn cael ei adrodd i'r Cabinet maes o law. Atgoffwyd pawb am yr angen i adrodd, yn y Pwyllgor hwn, am unrhyw bryder diogelwch.
- **Carthu**
  Nodwyd rhwystredigaeth am y sefyllfa carthu yn sgil materion Covid. Adroddwyd mai cwmni Royal Smalls bydd yn gwneud y gwaith ym Mhwllheli, gan ddilyn yr un cytundeb gwaith a'r cytundeb yn Doc Victoria. Cadarnhawyd bod yr amserlen wedi llithro, yn bennaf oherwydd nad oedd Royal Smalls yn gallu caniatáu i'w staff deithio yn sgil y cyfyngiadau Covid. Nodwyd y gobaith y bydd y gwaith yn cychwyn Medi 2021, tra bydd y gwaith carthu ceg yr harbwr yn cychwyn Ebrill 2021 drwy y cytundeb sydd yn rhedeg o bosib am dair blynedd.
- **Arolwg Hydrograffeg**
  Adroddwyd bod dyfnder dwr basn y marina yn weddol dda er ei fod yn llai dwfn ar geg yr harbwr. Nodwyd y bydd y gwaith ar garthu ceg yr harbwr wedi darfod cyn y gwaith yn y sianel fordwyo. Cadarnhawyd bod yr £270,000 ar gyfer y gwaith wedi ei rannu i 2/3 i Bwllheli ac 1/3 i Doc Victoria, gyda rhan helaeth o'r budd ym Mhwllheli. Nodwyd siom nad oedd y gwaith yn mynd yn ei flaen a'r pryder ynglŷn â'r siawns o golli dyfnder yn y sianel a chwestiynwyd tybed a oes cynllun arall megis lefelu gwely'r môr ar gyfer y tymor? Cadarnhawyd y bydd carthu ceg yr harbwr yn mynd yn ei flaen ac fe fydd hefyd gwaith lefelu y sianel fordwyo yn cychwyn yn fuan. Yn ychwanegol nodwyd yr angen i ystyried a phwyso a mesur lefel gwely'r môr gan gymharu lefel gwely'r môr gyda lefel yn y sianel fordwyo. Er bod dymuniad i ail-edrych a gweld beth ellir ei wneud, cadarnhawyd bo problemau gydag argaeledd cytundebwyr, ond eto cytunwyd y byddai y swyddog priodol yn ail-ymweld i weld beth sydd yn bosib.
- Mordwyo
  Cytunwyd i ystyried beth ellir ei wneud o ran dyfnder y sianel fordwyo gan mai hanner meder o ddyfnder ar lanw isel ydyw'r lefel dyluniad. Cytunwyd i rannu yr arolwg hydrograffeg gydag aelodau maes o law. Nodwyd ymhellach, gan mai tywod a graean sydd yn achosi y broblem, bod angen chwilio am ffordd amgen i wneud defnydd ohono gan nad oes safle addas i'w brosesu ar hyn o bryd. Cynigwyd edrych i mewn i'r posibilrwydd o ddefnyddio cwch (barge) i'w symud. Cadarnhawyd pwysigrwydd Morglawdd y Crud a chadarnhawyd bod buddsoddiad o £300,000 wedi ei fuddsoddi ar gyfer ei ail-adeiladu. Ni ragwelwyd bod unrhyw obaith i'w ymestyn yn y tymor canolig.
- **Materion Ariannol**
  Dosbarthwyd taflen yn adrodd ar y sefyllfa ariannol. Cadarnhawyd nad oes gwario wedi bod ar unrhyw beth o'r newydd.

- **Ffioedd a Thaliadau**
  Cadarnhawyd bod ffioedd wedi aros yn eu hunfan er bod codiad o 4% ym mhris trydan. Nodwyd y siom bod tri mis wedi mynd heibio ble ni chymerwyd taliad, ond ei fod wedi ei ychwanegu ddiwedd y flwyddyn heb rybudd. Cadarnhawyd bo hyn wedi digwydd gan nad oedd neb yn siŵr beth oedd i ddod ond bo costau rhedeg yr Harbwr yn parhau. Cadarnhawyd y bydd pob cwsmer yn cael anfoneb mor agos â phosib wedi'r 1/4/21 ac y bydd taliadau sydd yn parhau yn ddyledus yn cael ei addasu wedyn. Nodwyd y pryder bod hwn yn cael effaith ar y cwsmeriaid a'i bod yn bwysig sicrhau bod y cyfnod talu yn ffitio i mewn gyda y cwsmer. Nodwyd y pryder hefyd bod y rhai sydd yn dal angorfeydd yn cael eu taro gan ddwy anfoneb o bosib ond anogwyd yr unigolion i ddod i gyswllt a'r Cyngor er mwyn dod i drefniant talu os oes anhawster.
  Awgrymwyd gan na fu cynnydd yn y ffioedd y byddai hyn yn gyfle gwych i farchnata ar sail hyn. Cadarnhawyd y bwriad i ofyn am arweiniad o ran ffioedd 2022 yn yr Hydref eleni. Nodwyd y dyhead i weld y gwaith o farchnata llefydd gwag yn symud yn ei flaen ar fyrder. Er gwybodaeth, nodwyd bod ffioedd Conwy wedi codi 5.7% y flwyddyn hon.
- **Gostyngiad Ffyddlondeb**
  Cadarnhaodd y Rheolwr Gwasanaeth Morwrol bod y cysyniad gostyngiad ffyddlondeb wedi ei ystyried ers peth amser a nododd y dymuniad i'w drafod yn y cyfarfod 2022. Cadarnhawyd na fydd ffioedd yn cael eu codi y flwyddyn hon, a'r gobaith i gael eglurder am ffioedd 2022/23 erbyn Nadolig 2021.
- **Materion Gweithredol**
  Mae angen cadwyn ar y bwi
  Nid oes newid yn y cei tanwydd ac mae yn gweithio yn effeithiol.
  Mae cynnal a chadw a golchi y pontŵn yn parhau
- **Materion Staffio**
  Cadarnhawyd bod Mr Keith Williams, Is Reolwr Hafan Pwllheli wedi ymddeol erbyn hyn a nodwyd ei bod wedi bod yn anrhydedd cydweithio gyda Keith. Cytunwyd i'w lythyru i ddatgan diolch am ei wasanaeth yn yr Hafan am dros 30 mlynedd.
- Adroddwyd ar y gobaith o apwyntio tri aelod staff newydd yn yr wythnosau nesaf a chwestiynwyd a yw apwyntio tri yn ddigonol?
- **Ystadegau**
  Cadarnhawyd y byddai Rheolwr yr Hafan yn diweddaru y ffigyrau angorfeydd blynyddol gan fod y ffigyrau yn parhau i'w gyrraedd yn ddyddiol.
- **Unrhyw Fater Arall**
  Cyfeiriwyd at yr 'ap' sydd nawr ar gael ar gyfer ffonau symudol, ac mae y gwaith ar y we gamerâu ar y gweill. Yn ychwanegol, mae y gwaith cofrestru cychod nawr ar gael ar lein, yn hytrach na ar bapur. Mae cwch newydd y bad achub wedi cyrraedd erbyn hyn, a llawer o wahanol hyfforddiant yn mynd yn ei flaen.
- **Materion Covid**
  Cadarnhawyd ei bod wedi bod yn gyfnod anodd i bawb, ond bod y staff wedi gallu parhau i weithio drwy yr holl gyfnod clo. Cyfeiriwyd at yr arfer blaenorol o gadw allweddi cychod cwsmeriaid yn yr Hafan, a bod staff wedi mynegi pryder bod cytundebwyr yn casglu'r allweddi yn ystod y cyfnod. O ganlyniad, cadarnhawyd bod gofyn wedi ei wneud i'r perchnogion gadw eu hallweddi ei hunain, gan fod y dderbynfa yn mynd yn rhy brysur. Nodwyd pryder am y penderfyniad, er bod aelodau y pwyllgor yn deall y sefyllfa, ond yn awyddus i gael datrysiad. Cadarnhawyd bod y mater wedi cael llawer o drafodaeth a'i bod yn sefyllfa anodd ond bod angen diogelu staff. Cadarnhawyd y bydd staff yn parhau i gadw golwg ar y cychod ble bynnag mae yr allweddi. Cytunwyd i edrych a oes ffyrdd eraill o wneud hyn ac anogwyd aelodau y pwyllgor i rannu unrhyw syniadau. Awgrymwyd efallai trefn o roi rhybudd 24 awr cyn casglu allwedd ar ffurf apwyntiad. Awgrym arall oedd cloeon gyda chodau arnynt. Cytunwyd y byddai Rheolwr Gwasanaeth Morwrol a Rheolwr Hafan yn trafod ymhellach.

**Plas Heli a'r Clwb Hwylio**

Nodwyd bod materion Covid wedi bod yn broblem fawr a'r gobaith o weld goleuni yn fuan. Nodwyd y bydd Plas Heli ar gau drwy 2021 gan y bydd yn cael ei ddefnyddio gan wasanaeth y Bad Achub, Nyrsys Betsi Cadwaladr a'r ysgolion, ond eu bod yn edrych ymlaen yn fawr i ail-agor.

Cadarnhawyd bod adeilad y bad achub wedi ei ffensio, a'r giatiau a'r arwyddion wedi eu gosod, a'u bod wedi bod yn ffodus iawn i gael grant a benthyciad gan y trydydd sector.

Erfyniodd y Rheolwr Gwasanaeth Morwrol os oes unrhyw fater yn codi, rhwng cyfarfodydd, i aelodau y pwyllgor gysylltu ar unwaith.

**PENDERFYNWYD** : derbyn cynnwys yr adroddiad gan nodi'r sylwadau uchod.

**8. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

Nodwyd y bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 12 Hydref, 2021 6.00 pm

Dechreuodd y cyfarfod am 6.00 pm a daeth i ben am 8.00 pm.

**CADEIRYDD**

# Eitem 7

| CYFARFOD | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli |
|---|---|
| DYDDIAD | 12 Hydref 2021 |
| TEITL | Diweddariad ar Faterion Rheoli'r Harbwr |
| AWDUR | Rheolwr Harbwr Pwllheli |

**1. Cyflwyniad.**

1.1 Prif swyddogaeth y Pwyllgor yw ystyried, trafod a chynghori ar faterion sy'n ymwneud â rheoli, diogelu a datblygu'r Harbwr a derbyn sylwadau'r Aelodau ar faterion sy'n ymwneud â Harbwr Pwllheli.

1.2 Diben yr adroddiad hwn yw rhoi diweddariad bras i'r Pwyllgor ar faterion yr harbwr ar gyfer y cyfnod rhwng mis Mawrth 2021 a mis Hydref 2021, er mwyn derbyn adborth gan yr aelodau ar faterion diogelwch a materion gweithredol yr Harbwr.

1.3 Mae Pwyllgor Harbwr Pwllheli yn Bwyllgor Harbwr anstatudol, a sefydlwyd yn unol â chymeradwyaeth y Cyngor. Mae'r caniatâd yn darparu bod pymtheg (15) aelod yn gwasanaethu ar Bwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli. Ceir rhestr gynhwysfawr o'r grwpiau a'r sefydliadau sy'n cael eu cynrychioli ar y pwyllgor Harbwr yn yr agenda.

**Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd.**

Mae'r Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd (PMSC) yn amlinellu'r safon genedlaethol ar gyfer pob agwedd o ddiogelwch morol porthladdoedd. Ei nod yw gwella diogelwch i bawb sy'n defnyddio neu'n gweithio yn amgylchedd morol porthladdoedd. Mae'n berthnasol i bob Awdurdod Harbwr Statudol.

Mae'r Cod yn cynrychioli arfer dda a gydnabyddir gan amrediad eang o fudd-ddeiliaid yn y diwydiant ac mae Cyngor Gwynedd yn deall y gall peidio â chadw at arfer dda fod yn arwydd o awdurdod harbwr sy'n torri dyletswyddau cyfreithiol penodol. Mae'n angenrheidiol i'r Gwasanaeth dderbyn sylwadau a barn Aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol ar ba mor addas yw'r Cod Diogelwch Morol ac i dderbyn sylwadau'n rheolaidd ar ei gynnwys, er mwyn gallu ei adolygu fel bo'n berthnasol i weithgarwch yr harbwr, cymhorthion mordwyo, addasrwydd is-ddeddfau, materion diogelwch a gwaith dydd-i-ddydd cyffredinol yn Harbwr Pwllheli.

Yn dilyn archwiliad trylwyr o God Diogelwch Morol Porthladdoedd Gwynedd a'r system rheoli diogelwch gysylltiedig gan archwilwyr yr Asiantaeth Forwrol a Gwylwyr y Glannau y llynedd, mae'r Gwasanaeth yn bwriadu anfon llythyr cydymffurfio â'r cod at yr Asiantaeth Forwrol a Gwylwyr y Glannau. Caiff hyn ei gwblhau ar ôl cynnal yr archwiliad allanol blynyddol o'r system rheoli diogelwch.

**Adolygiad Strategol – Yr Hafan a Harbwr Pwllheli**

Yn ystod 2019/20 comisiynwyd Bwrdd Prosiect i gynnal adolygiad strategol o'r trefniadau rheoli tymor hir ar gyfer yr Hafan a Harbwr Pwllheli yn ei gyfanrwydd. Yn anffodus, bu rhaid oedi gwaith y Bwrdd Prosiect yn gynnar yn 2020 oherwydd y pandemig.

Mae'r maes gwaith hwn yn dal i fod yn un o flaenoriaethau'r Adran Economi a Chymuned, a bwriedir ail-afael yn y gwaith yn y misoedd i ddod (gan gydnabod bod Covid yn dal i greu ansicrwydd).

Mae rhaglen waith byrdymor wedi'i pharatoi ac mae'n cynnwys yr agweddau a ganlyn:

- Adolygu ac addasu strwythur cyfredol yr Hafan a harbwr Pwllheli

- Grŵp trawsadrannol i gydlynu materion eiddo, cyfreithiol, ariannol a rheolaethol

- Paratoi Cynllun Datblygu (Prif Gynllun) ar gyfer Glandon ac ardal yr harbwr

- Gweithredu'r Strategaeth Garthu (ystyried datrysiadau hirdymor i geisio ailddefnyddio gwaddod o'r harbwr)

- Paratoi Strategaeth Fuddsoddi ar gyfer y tymor byr, canolig a hir

Byddwn yn cyflwyno diweddariadau pellach i'r Pwyllgor Harbwr maes o law.

**Carthu**

Yn anffodus bu'n rhaid oedi'r ymgyrch garthu yn 2020 yn defnyddio'r dull 'cutter suction' oherwydd y pandemig Covid-19.

Roedd y Cyngor wedi medru carthu'r fynedfa i'r harbwr yn unol â'r cynllun carthu blynyddol at ddibenion cynnal a chadw.

Mae cynlluniau mewn lle i garthu'r sianel fordwyo ac ardal y cei tanwydd, a disgwylir y bydd y gwaith yma yn cychwyn ym mis Tachwedd 2021.

Cynhaliwyd arolwg hydrograffeg yn ddiweddar ac mae copi digidol o'r arolwg ar gael ar gais.

**Materion Ariannol.**

Cyflwynir crynodeb bras o gyllideb yr Hafan a'r harbwr a'r sefyllfa ariannol bresennol yn y cyfarfod.

Yn ystod y cyfnod hwn bu'n rhaid ymrwymo adnoddau ariannol ar gyfer yr hyn a ganlyn:

Gosod system diogelwch mynediad newydd ar ffurf drws/rhwystr

Cynnal a chadw'r tir

Carthu mynedfa'r harbwr a chynllunio'r ymgyrch garthu ar gyfer yr hydref

Cynnal a chadw'r hoist – teiars, rhaffau gwifren, cell lwytho a phibellau hydrolig newydd ac ati

Offer a chyfarpar gan gynnwys offer diogelwch

Diffibriliwr

**Ffioedd a Thaliadau. 2022/3**

Ar hyn o bryd mae'r Gwasanaeth yn disgwyl cadarnhad ynghylch y gyfradd chwyddiant ac mae'n rhoi ystyriaeth ddyledus i gynigion ffioedd a gaiff eu defnyddio yn yr Hafan a harbwr Pwllheli am 2022/23.

**Eitemau Gweithredol**

**Mordwyo** - Mae'r holl Gymhorthion Mordwyo yn Harbwr Pwllheli yn gweithio ac yn eu lle.

Nid oes unrhyw "Rybuddion i Forwyr" yn weithredol yn Harbwr Pwllheli ar hyn o bryd.

**Cei Tanwydd** – Uned Hunanwasanaeth / Disel Coch - Ers cyfarfod diwethaf Pwyllgor Ymgynghorol yr Harbwr rydym yn dal i aros am arweiniad gan Cyllid a Thollau EM (HMRC) ynglŷn â gwerthiant Disel Coch i 'gychod pleser'. Felly, byddwn yn parhau gyda'r rhaniad a argymhellir gan CThEM sef 60/40 tan i ni dderbyn cyfarwyddyd pellach.

**Petrol** – o'r 1af o Fedi rydym yn stocio petrol E10. Nid yw'r petrol E5 yr oeddem yn arfer ei stocio ar gael bellach. Mae'r llywodraeth wedi cynyddu faint o Ethanol sydd yn y tanwydd er mwyn mynd i'r afael â newid hinsawdd, ac mae Hafan Pwllheli yn gwbl gefnogol i hynny.

**Cofrestru Cychod** – yn ystod rhan gyntaf yr haf eleni daeth yn bosibl i berchnogion Cychod Pŵer a Badau Dwr Personol gofrestru eu cwch a phrynu'r drwydded lansio flynyddol ar-lein.

Mae'n braf adrodd bod y system wedi gweithio'n dda iawn ac wedi lleihau'r gwaith gweinyddol yn sylweddol yn enwedig ar draethau.

Yn 2022 ni fyddwn yn derbyn ceisiadau drwy'r post ac ni fyddwn yn prosesu ceisiadau wyneb yn wyneb mewn harbyrau, marinas nac ar draethau. Bydd pob cais angen ei gwblhau ar-lein

**Llithrfa'r Hafan –** Mae'n destun pryder ac yn siomedig iawn adrodd i'r Pwyllgor nad oedd cwmnïau Parc a Lansio awdurdodedig sy'n defnyddio llithrfa Hafan yn sicrhau bod cychod sy'n cael eu lansio gan gwmnïau Parcio a Lansio drwy ddefnyddio llithrfa Hafan Pwllheli wedi'u cofrestru'n briodol yn unol â gofynion y Cyngor a rheoliadau'r harbwr.

Ar sawl achlysur, heriwyd cwmnïau Parcio a Lansio gan swyddogion morwrol ac fe'u hatgoffwyd o'r gofyniad hwn. Yn ystod penwythnos Gŵyl y Banc ym mis Awst roedd hyn yn peri mwy o bryder gan fod nifer y cychod a lansiwyd wedi cynyddu'n sylweddol. Lansiwyd nifer o gychod heb arddangos rhif cofrestru o gwbl.

Er iddynt gael eu herio, hysbyswyd staff morwrol nad dyletswydd y cwmni Parcio a Lansio oedd sicrhau cydymffurfiaeth. Mae hyn yn gwbl anghywir ac yn groes i gytundeb defnydd masnachol llithrfa Hafan Pwllheli.

O ystyried y diffyg llwyr o fethu a chydymffurfio, bydd mesurau llymach yn cael eu cyflwyno ar gyfer 2022. Bydd hyn yn cynnwys trefniadau diogelwch ychwanegol ar ffurf rhwystr diogelwch a fydd dan glo; taliadau uwch a penodi staff ychwanegol er sicrhau cydymffurfiaeth bob amser.

Fel bydd yr Aelodau'n cofio, yn 2019 lleihawyd y tâl blynyddol am ddefnydd masnachol o lithrfa'r Hafan yn sylweddol gyda sicrwydd yn cael ei roi na fyddai unrhyw gwch yn cael ei lansio oni bai ei fod wedi'i gofrestru. Mae'n amlwg nad yw hyn wedi digwydd.

**Ystadegau Blynyddol yr Harbwr/Hafan ac ati**

Mae manylion ystadegau'r Hafan a'r Harbwr ar gyfer 2021 wedi'u cynnwys gyda'r adroddiad hwn. Mae'r nifer preswyl blynyddol wedi cynyddu'n fawr eleni, ac mae'r Hafan bron yn llawn gyda 92% o'r angorfeydd wedi'u cymryd gan breswylwyr blynyddol. Mae ymholiadau am angorfeydd ar gyfer 2022 wedi dechrau cyrraedd yn barod.
Hoist cychod/cadw cychod ar y lan – Mae'r defnydd o hoist cychod yr Hafan yn gyson, ond fel yr adroddwyd yng nghyfarfod diwethaf yr Harbwr mae llefydd yn brin iawn ar gyfer storio cychod ar y lan. Y gaeaf yma mae'r *Berth Holders' Association* wedi gofyn i ni roi blaenoriaeth i Ddeiliaid Angorfeydd Preswyl, ac rydym wedi cytuno i hynny.

**Materion Staffio**

Mae un gweithiwr wedi symud o'r Hafan i farina Y Felinheli.  Roedd yr aelod staff parhaol yma yn arfer gweithredu'r hoist yn yr Hafan.  Dymunwn yn dda i'r aelod staff yn y dyfodol. Rydym wedi hysbysebu'r swydd wag.

Dros yr haf fe wnaethom gyflogi tri cynorthwyydd tymhorol yn yr Harbwr.  Yn anffodus fe wnaeth un aelod o staff tymhorol adael y gwasanaeth yng nghanol y tymor gan fynd i weithio gyda pheiriannydd morol lleol. Mae cytundebau'r ddau aelod o staff arall wedi cael eu hymestyn at 31 Mawrth 2022.

# ***Uned Morwrol / Maritime Unit***

***Ystadegau angorfeydd – Mooring statistics***

| ***Harbwr Harbour*** | ***Nifer o Angorfeydd Available no of moorings*** | ***Preswylydd Occupancy*** | ***Preswyl yng Ngwynedd Residing in Gwynedd*** | ***Eraill*** *Others* |
|---|---|---|---|---|
| *Aberdyfi 2016* | *120* | *79 (65.8%)* | *36 (45.6%)* | *43 (54.4%)* |
| *Aberdyfi 2017* | *120* | *78 (65.0%)* | *36 (46.2%)* | *42 (53.8%)* |
| *Aberdyfi 2018* | *120* | *74 (61.7%)* | *37 (50.0%)* | *37 (50.0%)* |
| *Aberdyfi 2019* | *120* | *68 (56.7%)* | *32 (47.1%)* | *36 (52.9%)* |
| *Aberdyfi 2020* | *120* | *47 (39.2%)* | *23 (48.9%)* | *24 (51.1%)* |
| ***Aberdyfi 2021*** | ***120*** | ***76 (63.3%)*** | ***34 (44.7%)*** | ***42 (55.3%)*** |
| *Abermaw 2016* | *140* | *88 (62.9%)* | *60 (68.2%)* | *28 (31.8%)* |
| *Abermaw 2017* | *140* | *86 (61.4%)* | *59 (68.6%)* | *27 (31.4%)* |
| *Abermaw 2018* | *140* | *69 (49.3%)* | *44 (63.8%)* | *25 (36.2%)* |
| *Abermaw 2019* | *140* | *70 (50.0%)* | *45 (64.3%)* | *25 (35.7%)* |
| *Abermaw 2020* | *140* | *31 (22.1%)* | *24 (77.4%)* | *7 (22.6%)* |
| ***Abermaw 2021*** | ***140*** | ***45 (32.1%)*** | ***31 (68.9%)*** | ***14 (31.1%)*** |
| *Porthmadog 2016* | *238* | *129 (54.2%)* | *47 (36.4%)* | *82 (63.6%)* |
| *Porthmadog 2017* | *238* | *135 (56.7%)* | *54 (40.0%)* | *81 (60.0%)* |
| *Porthmadog 2018* | *238* | *131 (55.0%)* | *54 (41.2%)* | *77 (58.8%)* |
| *Porthmadog 2019* | *238* | *130 (54.6%)* | *60 (46.2%)* | *70 (53.8%)* |
| *Porthmadog 2020* | *238* | *64 (26.9%)* | *30 (46.9%)* | *34 (53.1%)* |
| ***Porthmadog 2021*** | ***238*** | ***112 (47.1%)*** | ***42 (37.5%)*** | ***70 (62.5%)*** |
| *Pwllheli 2016* | *114* | *58 (50.9%)* | *27 (46.6%)* | *31 (53.4%)* |
| *Pwllheli 2017* | *81* | *60 (74.1%)* | *28 (46.7%)* | *32 (53.3%)* |
| *Pwllheli 2018* | *81* | *55 (67.9%)* | *27 (49.1%)* | *28 (50.9%)* |
| *Pwllheli 2019* | *81* | *58 (71.6%)* | *40 (69.0%)* | *18 (31.0%)* |
| *Pwllheli 2020* | *81* | *50 (61.7%)* | *36 (72%)* | *14 (28%)* |
| ***Pwllheli 2021*** | ***81*** | ***50 (61.7%)*** | ***36 (72%)*** | ***14 (28%)*** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| *Hafan 2016* | *409* | *287 (70.1%)* | *55 (19.2%)* | *232 (80.8%)* |
| *Hafan 2017* | *409* | *306 (74.8%)* | *57 (18.6%)* | *249 (81.4%)* |
| *Hafan 2018* | *409* | *292 (71.4%)* | *56 (19.2%)* | *236 (80.8%)* |
| *Hafan 2019* | *409* | *299 (73.1%)* | *57 (19.1%)* | *242 (80.9%)* |
| *Hafan 2020* | *409* | *288 (70.4%)* | *40 (13.9%)* | *248 (86.1%)* |
| ***Hafan 2021*** | ***409*** | ***378 (92.4%)*** | ***77 (20.4%)*** | ***301 (79.6%)*** |
| | | | | |
| *Doc Fictoria 2016* | *100* | *92 (92.0%)* | *19 (20.7%)* | *73 (79.3%)* |
| *Doc Fictoria 2017* | *100* | *92 (92.0%)* | *16 (17.4%)* | *76 (82.6%)* |
| *Doc Fictoria 2018* | *100* | *90 (90.0%)* | *21 (23.3%)* | *69 (76.7%)* |
| *Doc Fictoria 2019* | *100* | *94 (94.0%)* | *20 (21.3%)* | *74 (78.7%)* |
| *Doc Fictoria 2020* | *100* | *90 (90%)* | *22 (24.4%)* | *68 (75.6%)* |
| ***Doc Fictoria 2021*** | ***100*** | ***89 (89%)*** | ***21 (23.6%)*** | ***68 (76.4%)*** |
| | | | | |

# *Uned  Morwrol*

**Ystadegau Cychod Pŵer v's Cychod Hwylio a Rhestr Aros - Powerboats v's Sailing Boats and Waiting List**

| ***Harbwr/Harbour Marina*** | ***Cyfanswm Nifer Angorfeydd Total number available moorings*** | ***Cyfanswm Cychod ar Angorfeydd Total number of boats on mooring*** | ***Nifer Cychod Pŵer Total number Powerboats*** | ***Nifer Cychod Hwylio Total number sailing boats*** | ***Canran (%) Pŵer V's hwylio Percentage Power v's Sail*** |
|---|---|---|---|---|---|
| Harbwr Aberdyfi 16 | 120 | 79 | 55 | 24 | 69.6% Pwer<br>30.4% Hwylio |
| Harbwr Aberdyfi 17 | 120 | 78 | 56 | 22 | 71.8% Pwer<br>28.2% Hwylio |
| Harbwr Aberdyfi 18 | 120 | 74 | 55 | 19 | 74.3 % Pwer<br>25.7% Hwylio |
| Harbwr Aberdyfi 19 | 120 | 68 | 54 | 14 | 79.4% Pwer<br>20.6% Hwylio |
| Harbwr Aberdyfi 20 | 120 | 47 | 44 | 3 | 93.6% Pwer<br>6.4% Hwylio |
| **Harbwr Aberdyfi 21** | **120** | **76** | **66** | **10** | **86.8% Pwer<br>13.2% Hwylio** |
| | | | | | |
| Harbwr Abermaw 16 | 140 | 88 | 59 | 29 | 67.0% Pwer<br>33.0% Hwylio |
| Harbwr Abermaw 17 | 140 | 86 | 55 | 31 | 64.0% Pwer<br>36.0% Hwylio |
| Harbwr Abermaw 18 | 140 | 69 | 45 | 24 | 65.2% Pwer<br>34.8% Hwylio |
| Harbwr Abermaw 19 | 140 | 70 | 44 | 26 | 62.9% Pwer<br>37.1% Hwylio |
| Harbwr Abermaw 20 | 140 | 31 | 21 | 10 | 67.7% Pwer<br>32.3% Hwylio |
| **Harbwr Abermaw 21** | **140** | **45** | **32** | **13** | **71.1% Pwer<br>28.9% Hwylio** |
| | | | | | |
| Harbwr Porthmadog 16 | 238 | 129 | 41 | 88 | 31.8% Pwer<br>68.2% Hwylio |
| Harbwr Porthmadog 17 | 238 | 135 | 42 | 93 | 31.1% Pwer<br>68.9% Hwylio |
| Harbwr Porthmadog 18 | 238 | 131 | 40 | 91 | 30.5% Pwer<br>69.5% Hwylio |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Harbwr Porthmadog 19 | 238 | 130 | 42 | 88 | 32.3% Pwer<br>67.7% Hwylio |
| Harbwr Porthmadog 20 | 238 | 64 | 22 | 42 | 34.4% Pwer<br>65.6% Hwylio |
| **Harbwr Porthmadog 21** | **238** | **112** | **30** | **82** | **26.8% Pwer**<br>**73.2% Hwylio** |
| | | | | | |
| Harbwr Pwllheli 16 | 114 | 58 | 18 | 40 | 31.0% Pwer<br>69.0% Hwylio |
| Harbwr Pwllheli 17 | 81 | 60 | 19 | 41 | 31.7% Pwer<br>68.3% Hwylio |
| Harbwr Pwllheli 18 | 81 | 55 | 29 | 26 | 52.7% Pwer<br>47.3% Hwylio |
| Harbwr Pwllheli 19 | 81 | 58 | 26 | 32 | 44.8% Pwer<br>55.2% Hwylio |
| Harbwr Pwllheli 20 | 81 | 50 | 23 | 27 | 46% Pwer<br>54% Hwylio |
| **Harbwr Pwllheli 21** | **81** | **50** | **26** | **24** | **52% Pwer**<br>**48% Hwylio** |
| | | | | | |
| Hafan Pwllheli 16 | 409 | 287 | 137 | 150 | 47.7% Pwer<br>52.3% Hwylio |
| Hafan Pwllheli 17 | 409 | 306 | 144 | 162 | 47.1% Pwer<br>52.9% Hwylio |
| Hafan Pwllheli 18 | 409 | 292 | 150 | 142 | 51.4% Pwer<br>48.6% Hwylio |
| Hafan Pwllheli 19 | 409 | 299 | 133 | 166 | 44.5% Pwer<br>55.5% Hwylio |
| Hafan Pwllheli 20 | 409 | 288 | 140 | 148 | 48.6% Pwer<br>51.4% Hwylio |
| **Hafan Pwllheli 21** | **409** | **378** | **192** | **186** | **50.8% Pwer**<br>**49.2% Hwylio** |
| | | | | | |
| Doc Fictoria 16 | 100 | 92 | 34 | 58 | 37.0% Pwer<br>63.0% Hwylio |
| Doc Fictoria 17 | 100 | 92 | 28 | 64 | 30.4% Pwer<br>69.6% Hwylio |
| Doc Fictoria 18 | 100 | 90 | 49 | 41 | 54.4% Pwer<br>45.6% Hwylio |
| Doc Fictoria 19 | 100 | 94 | 29 | 65 | 30.9% Pwer<br>69.1% Hwylio |


| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Doc Fictoria 20 | 100 | 90 | 26 | 64 | 28.9% Pwer<br>71.1% Hwylio |
| **Doc Fictoria 21** | **100** | **89** | **26** | **63** | **29.2% Pwer**<br>**70.8% Hwylio** |
| | | | | | |
| Cyfanswm 16 | 1121 | 733 | 344 | 389 | 46.9% Pwer<br>53.1% Hwylio |
| Cyfanswm 17 | 1088 | 757 | 344 | 413 | 45.4% Pwer<br>54.6% Hwylio |
| Cyfanswm 18 | 1088 | 709 | 367 | 342 | 51.8% Pwer<br>48.2% Hwylio |
| Cyfanswm 19 | 1088 | 719 | 328 | 391 | 45.6% Pwer<br>54.4% Hwylio |
| Cyfanswm 20 | 1088 | 570 | 276 | 294 | 48.4% Pwer<br>51.6% Hwylio |
| **Cyfanswm 21** | **1088** | **746** | **371** | **375** | **49.7% Pwer**<br>**50.3% Hwylio** |


# CYMHARIAETH O YSTADEGAU CYCHOD YM MHOB HARBWR 2021
# COMPARISON OF BOAT STATISTICS AT EACH HARBOUR 2021


| Harbwr<br>Harbour | Nifer o Gychod<br>Number of Boats | Cyfanswm Hydoedd<br>Total Overall Length | Cyfartaledd Hyd<br>Average Length | Cyfanswm Dyfnder<br>Total Draught | Cyfartaledd Dyfnder<br>Average Draught |
|---|---|---|---|---|---|
| **Abermaw** | **45** | **314.81** | **7.00** | **42.36** | **0.94** |
| **Aberdyfi** | **76** | **487.32** | **6.41** | **48.82** | **0.64** |
| **Porthmadog** | **112** | **902.60** | **8.06** | **111.13** | **1.01** |
| **Pwllheli** | **50** | **361** | **7.2** | **42.0** | **0.84** |
| | | | | | |
| Cyfansymiau holl harbrau<br>Totals of all harbours | **283** | **2065.73** | **28.67** | **244.31** | **3.43** |
| Cyfartaleddau holl harbrau<br>Averages of all harbours | **70.75** | **516.43** | **7.17** | **61.08** | **0.86** |


# Darlun o ystadegau cychod ym mhob harbwr.
# Analysis of boat statistics at each harbour.















# HARBWR PWLLHELI HARBOUR


## Cymhariaeth o Ystadegau Cychod
Comparison of Boat Statistics


| | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nifer o Gychod /** Number of Boats | 58 | 60 | 55 | 58 | 50 | **50** |
| **Cyfanswm Hydoedd /** Total LOA | 463 | 457 | 416 | 425 | 341 | **361** |
| **Cyfartaledd Hyd /** Average Length | 7.98 | 7.62 | 7.56 | 7.32 | 7.5 | **7.2** |
| **Cyfanswm Dyfnder /** Total Draught | 55.54 | 53.58 | 49.11 | 47.52 | 38.11 | **42.0** |
| **Cyfartaledd Dyfnder** / Average Draught | 0.96 | 0.97 | 0.89 | 0.81 | 0.80 | **0.84** |
















## Ystadegau Blynyddol *Hafan Pwllheli* - i Medi 2021
## Annual Statistics for *Hafan Pwllheli* - to September 2021












**Hyd at Medi 2021** **Up to September 2021**





**Hyd at Medi 2021** **Up to September 2021**


Nifer o gychod ar yr rhestr diddordeb mewn angorfa - No. of vessels on the Expressions of Interest
0
10
20
30
40
50
60
70
80
76
76
74
74
0
0
0
0
0
2013
2014
2015
2016
2017
2018
2019
2020
2021



Nifer o gychod Hwylio/Pwer yn yr Hafan - No. of sailing/power vessels in the Hafan
0
50
100
150
200
250
153
205
169
181
149
153
155
137
154
138
150
138
162
144
150
142
166
133
115
124
186
2011
2012
2013
2014
2015
2016
2017
2018
2019
2020
2021
Hwyl/sail
Pwer/Power



Preswyl yng Ngwynedd/Residing In Gwynedd
350
300
250
200
150
100
50
0
285
264
234
244
236
232
249
236
242
224
78
75
68
50
56
55
57
56
57
15
77
2011
2012
2013
2014
2015
2016
2017
2018
2019
2020
2021
Preswyl Gwynedd Resident
Dim yn Preswyl Non Resident



Gwerthiant Petrol/Disel - Petrol/Diesel sales
Petrol
Disel/Diesel
200000
180000
160000
140000
120000
100000
80000
60000
40000
20000
0
140790
125775
153991
130469
93403
137972
106765
134783
95166
129984
77373
106078
92777
98620
43639
192143
60834
2013
2014
2015
2016
2017
2018
2019
2020
2021

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Wedi gwerthu cwch/sold boat | 7 | 13 | 9 | 9 | 11 | 10 | 10 | 18 | 21 |
| Ardal newydd/New Cruising Ground | 8 | 7 | 5 | 8 | 3 | 2 | 2 | 4 | 4 |
| Parcio a lansio/Park and Launch | 3 | 4 | 1 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Dim rheswm/No reason given | 16 | 14 | 2 | 13 | 8 | 2 | 1 | 10 | 3 |
| Rhu ddrud/Too expensive | 1 | 1 | 3 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ariannol/Financial reasons | 2 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 | 0 |
| Iechyd/Ill health | 8 | 2 | 4 | 9 | 3 | 2 | 1 | 2 | 8 |
| Blwyddyn allan/Year out | 5 | 2 | 2 | 0 | 0 | 0 | 2 | 0 | 3 |
| Carthu/Dredging | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Corona Virus | | | | | | | | 8 | 22 |
| **Cyfanswm/Total** | **0** | **43** | **28** | **41** | **25** | **25** | **41** | **44** | **61** |
| | | | | | | | | | |


## Ystadegau Blynyddol *Harbwr Pwllheli* - i Medi 2021
## Annual Statistics for *Pwllheli Harbour* - to September 2021




Cyfanswm medr cychod blynyddol - Total metres Resident boats
685
619
463
457
416
398
332
367
700
600
500
400
300
200
100
0
2014
2015
2016
2017
2018
2019
2020
2021


Preswyl yng Ngwynedd - Residing in Gwynedd
120
100
80
60
40
20
0
2012
2013
2014
2015
2016
2017
2018
2019
2019
2020
2021
Preswyl Gwynedd Resident
Dim Preswyl Non Resident


Nifer o gychod Hwylio/Pwer yn yr Harbwr - Number of Sailing/Power vessels in the Harbour
70
64


60
50
40
30
20
10
0
57
33
50
46
35
41
46
40
18
41
19
29
26
32
26
16
22
24
26
2012
2013
2014
2015
2016
2017
2018
2019
2020
2021
Hwylio Sail
Pwer Power

# ***Uned Morwrol / Maritime Unit***
## ***Cyfanswm wedi Cofrestru Cychod Pŵer - Total number of Powerboat Registrations***

| *Blwyddyn Year* | *Harbwr Aberdyfi Harbour* | *Harbwr Abermaw Harbour* | *Harbwr Porthmadog Harbour* | *Harbwr Pwllheli Harbour* | *Morfa Bychan* | *Traethau Gwynedd Beaches* | *Swyddfa a Ffos / Ar Lein* | *Cyfanswm Total* |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| *2016* | *58 Aberdyfi<br>7 Tywyn* | *81 Abermaw* | *37* | *115 Total Boat Care<br>4 Harbwr<br>119 Hafan* | *31* | *101 Abersoch<br>71 Machroes<br>27 Morfa Nefyn<br>14 Nefyn<br>10 Aberdaron* | *336* | *1011* |
| *2017* | *53 Aberdyfi<br>9 Tywyn* | *66 Abermaw* | *37* | *103 Total Boat Care<br>3 Harbwr<br>117 Hafan* | *29* | *125 Abersoch<br>40 Machroes<br>48 Morfa Nefyn<br>19 Nefyn<br>11 Aberdaron<br>6 Trefor* | *289* | *955* |
| *2018* | *53 Aberdyfi<br>14 Tywyn* | *75 Abermaw* | *38* | *112 Total Boat Care<br>177 Hafan* | *34* | *161 Abersoch<br>31 Machroes<br>52 Morfa Nefyn<br>15 Nefyn<br>5 Aberdaron* | *290* | *1057* |
| *2019* | *41 Aberdyfi a<br>16 Tywyn* | *66 Abermaw* | *33* | *97 Total Boat Care<br>172 Hafan* | *30* | *89 Abersoch<br>20 Machroes<br>60 Morfa Nefyn<br>14 Nefyn<br>12 Aberdaron* | *244* | *894* |
| *2020* | *51 Aberdyfi* | *46 Abermaw* | *16* | *281 Hafan* | *24* | *179 Abersoch<br>29 Machroes<br>57 Nefyn* | *152* | *835* |
| *2021* | *48 Aberdyfi* | *64* | *2* | *168 Hafan* | *26* | *105 Abersoch<br>39 Machroes<br>66 Nefyn* | *1657* | *2175* |

# *Uned Morwrol / Maritime Unit*

## *Cyfanswm wedi Cofrestru Badau Dwr Personol - Total number of Personal Watercraft Registrations*

| *Blwyddyn Year* | *Harbwr Aberdyfi Harbour* | *Harbwr Abermaw Harbour* | *Harbwr Porthmadog Harbour* | *Harbwr Pwllheli/ Hafan* | *Morfa Bychan* | *Traethau Gwynedd Beaches* | *Swyddfa Office / Ffos Ar Lein* | *Cyfanswm Total* |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| *2016* | *27 Aberdyfi<br>4 Tywyn* | *69* | *35* | *49 Total Boat Care<br>56 Hafan* | *183* | *101 Abersoch<br>20 Machroes<br>4 Morfa Nefyn<br>10 Nefyn<br>2 Aberdaron* | *174* | *734* |
| *2017* | *28 Aberdyfi<br>6 Tywyn* | *68* | *45* | *55 Total Boat Care<br>65 Hafan* | *165* | *122 Abersoch<br>10 Machroes<br>12 Morfa Nefyn<br>10 Nefyn<br>1 Aberdaron* | *151* | *738* |
| *2018* | *50 Aberdyfi<br>3 Tywyn* | *74* | *52* | *73 Total Boat Care<br>105 Hafan* | *200* | *188 Abersoch<br>9 Machroes<br>3 Morfa Nefyn<br>5 Nefyn<br>1 Aberdaron* | *160* | *923* |
| *2019* | *32 Aberdyfi<br>5 Tywyn* | *78* | *55* | *43 Total Boat Care<br>116 Hafan* | *184* | *137 Abersoch<br>5 Machroes<br>14 Morfa Nefyn<br>5 Nefyn<br>0 Aberdaron* | *153* | *827* |
| *2020* | *30 Aberdyfi* | *70* | *41* | *163 Hafan* | *178* | *236 Abersoch<br>23 Machroes<br>11 Nefyn* | *93* | *845* |
| *2021* | *16 Aberdyfi* | *65* | *--* | *142 Hafan* | *217* | *78 Abersoch<br>7 Machroes<br>11 Nefyn* | *766* | *1302* |